Cyllid & Tollau EM

# Asedion tramor

Atodlen IHT417

## Pryd i ddefnyddio'r ffurflen hon

Llenwch y ffurflen hon os oedd domisil yr ymadawedig yn y Deyrnas Unedig (DU), os ystyriwyd bod ei ddomisil yn y DU, neu os oedd ei ddomisil yn arfer bod yn y DU pan fu farw, ac roedd yn berchen ar asedion tramor. At ddibenion Treth Etifeddiant, nid yw Ynysoedd y Sianel nac Ynys Manaw yn rhan o'r DU. Dylech roi manylion yr holl asedion sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r DU yr oedd yr ymadawedig yn berchen arnynt.

## Help

Mae'r nodiadau arweiniad i'ch helpu i lenwi'r ffurflen hon ar dudalen 4. I gael rhagor o wybodaeth neu help, neu i gael copi arall o'r ffurflen hon:

- ewch i www.hmrc.gov.uk/inheritance-tax
- ffoniwch Wasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEM ar 0300 200 1900 – os ydych yn ffonio o'r tu allan i'r DU, ffoniwch +44 300 200 1900

Enw'r ymadawedig

Dyddiad y farwolaeth *DD MM BBBB*

Cyfeirnod IHT (os yw'n hysbys)

## Asedion y tu allan i'r DU

Nodwch fanylion asedion sy'n cynnwys:

- tai, tir ac adeiladau
- busnesau neu fuddiannau mewn busnesau
- cyfranddaliadau a gwarantau a roddodd reolaeth dros y cwmni i'r ymadawedig

1

| Disgrifiad o'r asedion - gweler y nodyn ar dudalen 4 | Gwerth mewn arian cyfred tramor ar ddyddiad y farwolaeth | Cyfradd gyfnewid ar ddyddiad y farwolaeth | Gwerth yr asedion ar ddyddiad y farwolaeth £ |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | Cyfanswm 1 | £ 0 |

2 **Manylion y rhwymedigaethau sydd i'w didynnu o'r asedion tramor a ddangosir ym mlwch 1**

Os yw benthyciad a godwyd ar eiddo a ddangosir ym mlwch 1 wedi'i roi yn y DU, dylech gynnwys y swm ar ffurflen IHT400, blwch 80, ac nid yma.

| Disgrifiad o'r rhwymedigaethau | Gwerth mewn arian cyfred tramor ar ddyddiad y farwolaeth | Cyfradd gyfnewid ar ddyddiad y farwolaeth | Swm y rhwymedigaeth £ sterling |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | Cyfanswm y rhwymedigaethau 2 | £ 0 |

3 **Asedion net (blwch 1 llai blwch 2)**

Os yw'n swm minws, ysgrifennwch '0' a darllenwch IHT400 Nodiadau ar sut i fynd i'r afael â diffyg

3 £ 0

4 **Manylion yr eithriadau a'r rhyddhad a ddidynnir yn erbyn asedion tramor a ddangosir ym mlwch 1**

| Disgrifiad o'r eithriadau a'r rhyddhad<br>Os ydych yn didynnu eithriad elusen, nodwch enw llawn yr elusen, y wlad lle y'i sefydlwyd a chyfeirnod CThEM ar gyfer yr elusen, os yw ar gael | Swm yr eithriad neu'r rhyddhad £ |
|---|---|
| | |
| Cyfanswm yr eithriadau a'r rhyddhad 4 | £ 0 |

5 **Cyfanswm net y canlynol pan y'u lleolir tramor: tai, tir, busnesau a daliannau cyfranddaliadau sy'n rhoi rheolaeth** (blwch 3 llai blwch 4). Os mai '0' sydd ym mlwch 3, ysgrifennwch '0' ym mlwch 5

5 £ 0

Copïwch y swm hwn i ffurflen IHT400, blwch 97

## Asedion eraill y tu allan i'r DU

Nodwch fanylion yr asedion eraill yr oedd yr ymadawedig yn berchen arnynt y tu allan i'r DU, nad oeddent wedi'u dangos ym mlwch 1. Er enghraifft, cyfrifon banc.

6

| Disgrifiad o'r asedion | Gwerth mewn arian cyfred tramor ar ddyddiad y farwolaeth | Cyfradd gyfnewid ar ddyddiad y farwolaeth | Gwerth yr asedion ar ddyddiad y farwolaeth £ |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | Cyfanswm 6 | £ 0 |

7 **Manylion y rhwymedigaethau sydd i'w didynnu o'r asedion tramor a ddangosir ym mlwch 6**

| Disgrifiad o'r rhwymedigaethau | Gwerth mewn arian cyfred tramor ar ddyddiad y farwolaeth | Cyfradd gyfnewid ar ddyddiad y farwolaeth | Swm y rhwymedigaeth £ |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | Cyfanswm y rhwymedigaethau 7 | £ 0 |

8 **Asedion net** (blwch 6 llai blwch 7)
Os yw'n swm minws, ysgrifennwch '0' a darllenwch IHT400 Nodiadau ar sut i fynd i'r afael â diffyg — 8 £ 0

**9** **Manylion yr eithriadau a'r rhyddhad a ddidynnir yn erbyn asedion tramor a ddangosir ym mlwch 6**

| Disgrifiad o'r eithriadau a'r rhyddhad<br>Os ydych yn didynnu eithriad elusen, nodwch enw llawn yr elusen, y wlad lle y'i sefydlwyd a chyfeirnod CThEM ar gyfer yr elusen, os yw ar gael. | Swm yr eithriad neu'r rhyddhad £ |
|---|---|
| | |
| Cyfanswm yr eithriadau a'r rhyddhad **9** | £ 0 |

**10** **Cyfanswm net yr asedion tramor eraill** (blwch 8 llai blwch 9)
Os mai '0' sydd ym mlwch 8, ysgrifennwch '0' ym mlwch 10

**10** £ 0

Copïwch y swm hwn i ffurflen IHT400, blwch 98

# Nodiadau

**Domisil**
Os oedd domisil yr ymadawedig yn y DU pan fu farw, defnyddiwch y ffurflen hon i roi gwybod i ni am asedion yr oedd yn berchen arnynt dramor. O dan rai amgylchiadau, mae'n bosibl y bydd yn haws i chi lenwi mwy nag un ffurflen. Er enghraifft, os gadawodd yr ymadawedig ewyllys ar wahân i ddelio â'i ystâd dramor yn ei chyfanrwydd, neu ran ohoni, mae'n bosibl y bydd wedi penodi cynrychiolwyr personol gwahanol. Bydd yr asedion hyn yn dal i ffurfio rhan o ystâd yr ymadawedig.

I gael rhagor o wybodaeth am ddomisil, gweler IHT400 Nodiadau.

**Disgrifiad o asedion**
**Tai, tir ac adeiladau**
Dylech roi disgrifiad llawn o'r eiddo ac amgáu unrhyw brisiadau proffesiynol a gafwyd, cynllun a ffotograffau o'r eiddo os oes rhai gennych.

Dylech hefyd roi sylwadau ar y canlynol:

- cyflwr yr eiddo
- p'un a yw'r eiddo mewn lleoliad anghysbell neu drefol
- pa gyfleusterau ychwanegol sydd gan yr eiddo, er enghraifft pwll nofio
- p'un a oedd unrhyw ganiatâd cynllunio
- p'un a yw'r eiddo ar fin cael ei werthu

**Busnesau a daliannau sy'n rhoi rheolaeth**
Amgaewch gopïau o'r cyfrifon diweddaraf a rhowch gyfrifiad o sut y pennwyd y prisiad.

**Trosi arian**

Dylech ddangos gwerth yr ased yn yr arian tramor ar ddyddiad y farwolaeth. Yna, dangoswch sut rydych wedi trosi'r gwerth hwnnw i bunnoedd sterling. Fel arfer, dylai'r arian cyfred mwyaf cyffredin gael ei drosi yn ôl y ffigur canol ar yr adeg cau a ddangosir yn y tabl *'Pound Spot Forward against the Pound'* ar dudalennau ariannol papurau newydd neu ar y Rhyngrwyd. Gall arian cyfred llai cyffredin gael ei drosi ar y cyfraddau a ddangosir yn *'FT Guide to World Currencies'*, sy'n cael ei gyhoeddi'n wythnosol yn y Financial Times bob dydd Llun. Gellir hefyd chwilio am y cyfraddau hyn ar y Rhyngrwyd.

**Asedion tramor mewn perchnogaeth ar y cyd**
Os oedd yr ymadawedig yn berchen ar unrhyw asedion tramor ar y cyd, dylech gynnwys yr asedion hynny ar y ffurflen hon ac nid ar ffurflen IHT404 Asedion mewn perchnogaeth ar y cyd. Defnyddiwch y blychau 'Gwybodaeth ychwanegol' ar dudalennau 15 ac 16 ffurflen IHT400 i roi manylion llawn perchnogaeth ar y cyd yr asedion tramor.

**Rhyddhad trethiant dwbl**
Os oes treth sy'n debyg i Dreth Etifeddiant wedi'i thalu ar ased mewn gwlad arall, mae'n bosibl y byddwch yn gallu didynnu rhyddhad trethiant dwbl. Bydd ffurflen IHT400 Cyfrifiad yn dangos i chi sut i gyfrifo'r rhyddhad trethiant dwbl.